

Toriad y Wawr: twf a thranc cylchgrawn Cymraeg cyntaf myfyrwyr Aberystwyth

Gellir crynhoi hanfodion yr hyn sy'n dilyn i baragraff. Yn 1913, lansiodd grŵp o fyfyrwyr Coleg Aberystwyth y cylchgrawn Cymraeg cyntaf yn hanes Prifysgol Cymru, *Y Wawr*. Pan oedd deunydd rhifyn gwanwyn 1918 yn y wasg, ymyrrodd awdurdodau'r Coleg i'w atal. Darfu'r cylchgrawn ar ôl tri rhifyn ar ddeg, ac nis atgyfodwyd.

Pe na bai mwy i'r stori na hynny, gellid ei rhestru gyda'r myrdd o enghreifftiau o wrthdaro rhwng ieuenctid egwyddorol ond ystyfnig ac awdurdod egwyddorol ond dicra sy'n nodweddu'r berthynas rhwng myfyrwyr a'u sefydliadau erioed. Fodd bynnag, o weld hanes *Y Wawr* yn ei gyd-destun mwy penodol, dywed gryn lawer am y cyfnewidiad rhwng gwladgarwch diwylliannol a chenedlaetholdeb cyfansoddiadol yn y cyfnod Edwardaidd.

I ddeall yr agwedd meddwl honno, mae'n werth gofyn pam na chafwyd dim byd tramgwyddus yn nghylchgrawn Saesneg y Coleg, *The Dragon*. Er mai 70 yn unig o blith y 429 o fyfyrwyr Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth a ddôi o'r tu allan i Gymru yn 1913, nid pwynt rhad ond ffaith yw mai prin y gellid dyfalu hynny wrth ei gynnwys.. A'r cylchgrawn yn 36 oed, yr oedd myfyrwyr Aberystwyth wedi hen sefydlu eu delwedd gyfrwng Saesneg. Efelychai yn ei hanfodion yr hyn a welid mewn cyhoeddiadau myfyrwyr prifysgolion ledled Prydain. Ei amcan oedd argyhoeddi ei ddarllenwyr o hyd eu bod yn profi'r cyfnod difyrfa a ddeuai byth i'w rhan ac i wneud yn fawr ohono. Rhywbeth cymdeithasol oedd bywyd coleg. Fe'i porthid gan gymdeithasau yn y gwyddorau a'r celfyddydau, gêmiau hoci, rygbi a pêl-droed, jôcs diniwed am ben aelodau'r staff, a chwynion tafod-ym-moch am ansawdd llety a darlithoedd cynnar. Cyfyngid difrifoldeb i lawr y *Lit and Deb*, lle câi rhai mwy huawdl na'i gilydd ddadlau o blaid neu'n erbyn y cynnig 'that the Stage has a beneficial effect on the morals of the people', neu i ysgrifau ar 'Tolstoi as a Novelist'.

Cyfrifid dau beth yn anathema ar dudalennau'r *Dragon*. Y cyntaf oedd sôn am wleidyddiaeth plaid, a'r ail oedd diffyg unrhyw gydnabyddiaeth bod Coleg Aberystwyth yn rhan o gymdeithas na chymuned y tu draw i'w waliau ei hun. Yn gyffredin â myrdd o gyhoeddiadau tebyg yn y cyfnod, yr oedd *The Dragon* wedi codi wal amddiffynnol o'i gwmpas. Cynrychiolai sefydliad difeddwl-ddrwg ond ymddangosiadol ddifater ei agwedd tuag at y byd ehangach.

Gwahanol hollol oedd cymhellion a gwerthoedd y myfyrwyr a lansiodd *Y Wawr*. Mae'r gwahaniaeth cyntaf rhwng y ddau gylchgrawn mor bwysig fel yr haedda baragraff newydd iddo'i hun, ac mor amlwg fel y gellir yn hawdd ei anghofio. Cymreictod – a'r Gymraeg fel hanfod Cymreictod – yw pwnc uniongyrchol neu anuniongyrchol *popeth*. Pan sonnir am y Coleg, sonnir amdano yn ei berthynas â'r iaith; pan goffheir cydfyfyriwr a laddwyd ar faes y gad, fe'i coffheir fel un na chafodd wireddu ei botensial fel Cymro Cymraeg; a phan fynegir barn am achosion ac effeithiau'r Rhyfel yn ehangach, gwneir hynny o safbwynt lleiafrif ieithyddol wedi'i dynnu i mewn i wrthdaro rhwng pwerau ymerodrol byd-eang.

I ddeall y cymhellion eraill, haws, efallai, dyfynnu cyn dehongli a dadansoddi ymhellach:

Cynnyrch cenedlaetholdeb yn deffro yng nghalonau [*sic*] myfyrwyr Coleg y Brifysgol ydyw. Teimla nifer o Gymry'r Coleg angen cylchgrawn Cymraeg er meithrin undeb cadarnach rhwng y myfyrwyr â [*sic*] gwerin Cymru. Onid trwy ymdrechion caled y werin y sylfaenwyd Prifysgol Cymru, ac onid ein dyletswydd ydyw ceisio ad-dalu iddi am ei llafur? Teimlwn fod gagendor rhwng aelodau ein Prifysgol a'r werin, ac un o amcanion y cylchgrawn fydd ceisio pontio'r gagendor hwn er gwneuthur *Cymru yn Un ...*¹

Ymgais sydd yma gan y cylchgrawn i'w wneud ei hun yn rhan o ddau symudiad gwladgarol poblogaidd yn negawdau agoriadol yr ugeinfed ganrif. Rhan o symudiad yw'r sôn am ddyletswydd y Brifysgol i ad-dalu i'r werin am ei hymdrechion, y gellir ei olrhain trwy O. M. Edwards, at gwlt y werin ddarllengar, teyrnged W. J. Gruffydd i'r 'Hen Chwarelwr' a '[r]oes ei geiniog brin at godi'r coleg', i Cyfres y Werin Edwards ei hun o 1889 ymlaen, adrannau

efrydiau allanol y Brifysgol, a Chyfres y Brifysgol a'r Werin, a gychwynnodd gyda *Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif* R.T. Jenkins yn 1928 ac a âi ymlaen i gyhoeddi llyfrau ar economeg, athroniaeth, ieitheg amaeth, hanes llenyddiaeth a diwinyddiaeth. Un esiampl ymhlith nifer yw'r *Wawr o noblesse* (academaidd, o leiaf) *oblige*.

Saif teitl y cylchgrawn ei hun, a'r sôn am ddeffroad a 'gwneuthur *Cymru yn Un*' yn nhraddodiad Cymru Fydd. Deffroad yw hwn trwy sefydliadau diwylliannol: siartr Prifysgol Cymru yn 1893 a chreu'r Bwrdd Canol i arolygu ysgolion yn 1896, sefydlu'r Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol (1907), Bwrdd Theatr Cymru (1911), Bwrdd y Gwybodau Celtaidd (1919), a Gwasg Prifysgol Cymru (1922). Y rheswm pam yr italeiddir y geiriau, yn ddiau, yw cyfeiriad at eiriau cân o eiddo Lloyd George ei hun, 'Cymru'n Un', a gyfansoddwyd yn 1897:

Blant y bryniau, goleu sydd gerllaw –
Boreu Cymru wen sydd yn tori draw ...

Rhyddid i addysg, rhyddid fydd i waith,
Rhyddid i'n Hawen, yn rhydd bo'n hiaith,
Rhyddid i grefydd daena trwy y tir,
Rhyddid yr enaid sydd ryddid gwir;
Blant y bryniau, unwn yn y gan,
Rhyddid Cymru wen a wnel Gymru lân.²

Am ddeffro, mae'n frith trwy awdl 'Cymru Fu, Cymru Fydd' John Morris-Jones:

Ym mryn a dyffryn mae Cymru'n deffro ...
O feirdd, wele Gymru Fydd,
Wele awr deg dy loywder di.

Yno hefyd, ac o fyrdd o gyfryngau tebyg, y câi awduron a darllenwyr y cylchgrawn eu ffydd mewn gwawr a gwasanaeth:

E dyr gwawr, wlad ragorwen,
Nac wyla, O Walia wen.

Di fegi bendefigion, — oreugwyr,
Uchelwyr, â chalon
I'th garu, fy nglân fanon,
A charu 'th iaith, heniaith hon.³

At hynny, arddelai'r *Wawr* genadwri ganolog arall gwladgarwch chwarter cyntaf yr ugeinfed ganrif: bod gan Gymru ei neges arbennig. Dewisodd yn arwyddair, 'Ein goreu i Gymru a Chymru i'r byd'. Ni allai'r wlad ymffrostio yn ei chyfoeth materol na'i maint, ond gallai gyhoeddi rhinweddau Cristnogol cymdogaeth dda, bychander, gwyleidd-dra a'r purdeb sy'n deillio o fod heb rym bydol.

Nid yw'n rhyfedd, felly, fod naws a chynnwys *Y Wawr* yn wahanol i'r *Dragon*, hyd yn oed cyn i'r Rhyfel dorri. Yr oedd o'r cychwyn yn llai gwamal. Fe'i hystyriai ei hun yn ogystal yn gyhoeddiad a wasanaethai Gymru gyfan ac na fynnai, chwedl y golofn agoriadol gyntaf, 'milwrio yn erbyn cylchgronau adnabyddus ein cenedl'. Fe'i diffiniodd ei hun yn ogystal (cafeat na fyddai wedi croesi meddwl y *Dragon* erioed) yn annibynnol ar 'unrhyw sect, plaid, nac enwad'. Gwahaniaeth arwyddocaol arall oedd lle i gyfranwyr nad oeddynt yn fyfyrwyr, nid fel gwesteion ond fel aelodau cydradd yn y fenter. Cafwyd yn y rhifyn cyntaf un gyfraniadau gan bob un o staff Adran y Gymraeg. Traethodd Edward Anwyl ar 'Neges Llenyddiaeth Cymru'; cyfrannodd T. Gwynn Jones stori-bortread, 'Dafydd yr Hen Bethau'; a mynegodd T. H. Parry-Williams, yn 'Y Frân, yr Eos, ar Niwl', ei gred mai 'ffrwyth gallu arbennig i fynegi gwirionedd ydyw llenyddiaeth'. Yn unol â chred yr oes bod cyswllt cyfrin bron rhwng y deffroad cenedlaethol a'r deffroad llenyddol a gafwyd yn sgil cadeirio 'Ymadawiad Arthur' T. Gwynn Jones ddegawd ynghynt, rhoddwyd lle amlycach o lawer hefyd i lenyddiaeth yn fwy cyffredinol, ynghyd â chynghorion i arfer Cymraeg glân. Cafwyd lle hefyd i'r penillion, dwfn-eironig hyn, o waith Griffith John Williams:

Gwell ydyw berw di-hedd
Na thrydar cariad ffôl,
Ai tynged y dewr yw gadael y cledd,
A byw ym medwendai'r ddôl? ...

Ymhell o fuscgrellni'r wawr!
Awn i oleuach dydd;
A dilynwn arwyr y blaenllu mawr
O orior halog y gwydd.⁴

Ystyrid lansiad *Y Wawr* yn ogystal nid fel cyhoeddiad a oedd yn estyniad naturiol o fywyd y Coleg ond fel buddugoliaeth a enillwyd yn nannedd gwrthwynebiad o du awdurdodau'r Coleg ei hun. Bu'n byw o rifyn i rifyn, heb sicrwydd parhad. Chwedl colofn olygyddol haf 1915, yn bwrw golwg yn ôl ar y dyddiau cynnar:

Teimlid braidd yn wrthryfelgar a gellid galw y cyfnod yn gyfnod y gwrthryfel. O weld anwybyddu'r Gymraeg meddyliodd rhyw Gymro neu Gymry am gylchgrawn Cymraeg. Eto teg yw dywedyd i anffawd (neu ffawd) dorri cysylltiad rhai â'r weledigaeth cyn i'r wawr dorri. Yr oedd sais-addolwyr yn gryfach ac yn fwy dylanwadol na'r Cymry, ac nid oedd y Cymry hwythau'n unol. Cyfododd rhwystrau fil. Yr oedd rheolau'r Coleg yn gaeth neu mynnid iddynt fod felly. Maentumid mai rhyfyg oedd eu herio, ond fel pob rhaman,t [sic]. llwyddwyd o'r diwedd a chafwyd cylchgrawn Cymraeg am y tro cyntaf i Brifysgol Cymru. Nid oedd un gymdeithas tu cefn iddo. Ni fynnai senedd y coleg mohono, ond cafodd Cymry gwir y coleg o'i blaid a deil 'Y Wawr' i lewyrchu arnom.⁵

Yn bwysicaf oll, efallai, ar dudalennau'r *Wawr*, union hanner can mlynedd cyn protest Pont Trefechan yn yr un dref, dysgodd Cymry ifanc am y tro cyntaf y geill chwyldro ddigwydd yn enw ceidwadaeth.

Gwahanol, gan hynny, oedd effaith y Rhyfel Mawr ar y ddau gylchgrawn. Prawf ar hwyliogrwydd y *Dragon* oedd y listio a'r lladd. Enynnodd yn y golygyddion a'r cyfranwyr beth o *esprit de corps* catrawd. Croesawyd y darllenwyr yn ôl i Aberystwyth ym Medi 1914, gyda'r genadwri chwerwfelys hon:

The Session has begun in circumstances of unprecedented gloom; death has been amongst us and War overshadows us increasingly ... Nevertheless, we feel that it is the duty of every one of us to maintain a cheerful courage and to fail in nothing of the zest and enthusiasm which is the very soul of our College life.⁶

Nid ymryddhaodd y *Dragon* o'r tyndra gydol y Rhyfel. Caed yr un ddeuoliaeth flwyddyn yn ddiweddarach:

This is the Easter Term when our minds are full of we know not what, but not athletics and not even soirées; and when the lighter things of our existence are little more than shadows of

what once they were. We who are left have tried to make things go in the usual way, and not without a measure of success. But when the streets and fields and Coll itself are full of khaki and gowns are rarely seen, and the lights of the Prom are darkened, then we know that while the War lasts, things cannot be quite as they used to be. Nevertheless, let us remain fixed in our resolve to do what in us lies for the common good, and at least to keep the wheels running smoothly, even though the speed be somewhat slackened.⁷

ac eto, ddwy flynedd yn ddiweddarach:

For the fourth time this session has opened with the gloom of the war still overhanging us; our heads are bowed in morning for our comrades ... Let us strive to uphold the glorious traditions of our College, and perpetuate the memory of our beloved comrades, by cherishing the institutions they cherished, and by unselfishly supporting the societies they founded and would have us support.⁸

Ychwanegodd y Rhyfel at stoc rethregol y *Dragon* – ‘Roll of Honour’, ‘patriotism’, ‘sympathy’ – ond ni ddisodlwyd y gwerthoedd hunangynhaliol a’i nodweddai yn 1913. Parhâi’r chwaraeon a’r cymdeithasau a’r tynnu coes megis cynt, fel teyrnged i’r rhai a gollwyd.

Arall oedd deinameg *Y Wawr*. Ymatebodd i’r Rhyfel ar lefel syniadol ac nid colegol. Y teimlad llywodraethol oedd siom yng ngwerin yr Almaen am fod wedi caniatáu i’w llywodraeth ymosod ar Wlad Belg. Daeth y Rhyfel, felly, yn foddion i gwestiynu gwerth gwladgarwch ac, yn araf ac yn raddol, i ddad-wneud y paradeim. Nid peth twymgalon oedd Cymreictod i fod, ond her. Ychwanegwyd yr italeiddio:

Daeth ‘Y Wawr’ allan gyda’r arwyddair, ‘Ein Goreu i Gymru, a Chymru i’r Byd’. Mae pob un i farnu drosto ei hun beth yw ei ‘oreu’. Ond gwyddom mai ychydig yw nifer y rhai a roddes eu goreu i Gymru. Ceir digon o sôn am ‘Ddeffroad’ a ‘Chodi’r Hen Wlad yn ei Hol’, a ‘Chymru am Byth’. Ond nid dyna yw rhoddi ‘ein goreu i Gymru’. Geill gwladgarwch fod dan ddirmyg yng ngolwg y mwyafrif – *y mae gobaith am dano y pryd hwnnw*; bu dynion, ie, a mwy na dynion, yn y *minority* cyn hyn. Ond geill gwladgarwch fod yn y ffasiwn ac yn *respectable* – rhaid ofni hwnnw.

Mae’n werth dal mewn cof cyn mynd ymhellach nad gosod agenda yw swyddogaeth golygydd cylchgrawn prifysgol. Nid yw’r drefn flynyddol o newid yn caniatáu hynny. Swyddogaeth anochel y golygydd yw ategu agenda a osodwyd gan eraill. Cyfyd yr alwad am amharch a’r ymfalchïo mewn bod yn lleiafrif uchod o ysgrif yng nghorff y rhifyn, sef ‘Y Tri

Hyn' gan D. J. Williams. Yma, mewn darn a anwybyddwyd gan y cysodwyr ym Maldwyn, y ceir gwir wreiddiau'r anghydfod a laddodd *Y Wawr*.

Yr oedd D.J. erbyn dechrau 1916 yn 30 oed, ac eisoes yn ŵr gradd ac yn astudio yn Rhydychen. Meddai, gan hynny, ar awdurdod rhamantaidd un a oedd wedi codi o gefn gwlad



Sir Gâr, trwy gyfnod dan ddaear ym mhyllau glo Morgannwg, cyn mynd ymlaen i fri academiaidd. Y tri y cyfeiria'r llith atynt yw tri bwgan poblogaidd y wasg felen Brydeinig oddi ar 1914: gwrthwynebwyr cydwybodol (a ganmolodd am weithredu neges Crist i garu gelynion), Sinn Féin, a'r Almaen ei hun: 'creadur amgylchiadau ... wedi ei gylchynnu ar bob tu gan elynion'.

Digriflun gan R. Ll. Huws (Sir Fôn)
a gyhoeddwyd yn *Heddiw*, Mai, 1937

Ei gwir darged, er hynny, yw'r cyswllt rhwng teyrngarwch a thaeogrwydd.

Teyrngarwch yw popeth yn awr – Brenin, Ymherodraeth [sic], ac anrhydedd Prydain Fawr a Phrydain Fwy. Pwy ond bradwr neu ynydd a faidd ddywedyd gair i'w herbyn? ... Ac o fod yn deyrngar, pa deyrngarwch i lywodraeth y Sais a fedrai ysbryd Cymru ddangos hafal i blygu glin i'w dduw cenedlaethol ef, ac ymwrthod yn llwyr am y tro, o leiaf, a'n delfrydau israddol a dibwys ni ein hunain mewn crefydd, addysg, a chenedlaetholdeb cysegredig? Oni cha Gymru [sic] grefyddol ei hysbryd, heddyw glod y byd drwy gyfrwng prif bapurau'r deyrnas am y cas cyfiawn a ddengys hi tuagat [sic] arch-elynn y Sais. Clod y byd yn gyfan i Gymru fechan, cofier! Dyna saig o fwyd blasus iddi ymborthi arno – ie, a phris enaid y genedl Gymreig oddiar law'r estron ar yr un pryd, fe ddichon. Ai brad y cyllill hirion unwaith eto a dry'r wledd hon i Gymru, tybed – llofruddiaeth ysbrydol?

Y trobwynt yn hanes *Y Wawr* oedd penodi Ambrose Bebb yn olygydd gyda rhifyn gaeaf 1917. Mae ei nodiadau golygyddol yn batrwm o'r modd y ceisiai'r cenedlaetholdeb mwy milwriaethus a enynnwyd gan y Rhyfel gyplysu Cymreictod wrth achosion mwy cyffredinol. Egyr Bebb ei golofn yn feiddgar. Byddai hyd yn oed y dyfynodau yn yr ail frawddeg yn ddigon i'w

gollfarnu yng ngolwg rhai. Pwysicach o safbwynt rhethreg y darn, fodd bynnag, yw'r ymdeimlad a grea o ddiffyg ymddiriedaeth, y gwir wedi'i fygu, ac argyfwng cynyddol:

Dyddiau'r drin yw'r dyddiau hyn – dyddiau gofid a thrallod. A phan fo clychau ac utgyrn y gad yn galw'r 'gwroniaid' i ladd ei gilydd, a phan fod deddfau Prydain Fawr yn taflu i garchar y neb a faidd feddwl drosto ei hun, anodd ydyw gwybod beth i ysgrifennu a beth i beidio ... Nid oes ryddid i ddywedyd gwirionedd yn y priffyrdd, na chaniatâd i draethu barn yng nghonglau mwyaf cyfrin yr heolydd ... Er bod *Y Wawr* bellach wedi goroesi sawl blwyddyn o'r rhyfel a'r anfadwaith mwyaf erchyll y clybuwyd sôn am dano erioed, gallem dybio mai heddyw, wedi tair blynedd o alar a thristwch, ydyw'r awr dywyllaf.

Pendilia gweddill y golofn rhwng gobraith a gofid. Croesawa'r Chwyldro yn Rwsia, a'r werin yno 'yn torri llyffetheiriau gorthrwm canrifoedd'. Ond gwahanol yw hi yn Aberystwyth: 'Teimlwn ysywaeth mai nid mewn Coleg Cymraeg yr ydym ... Bwriedasid i'r Coleg fod yn feithrinfa i ddelfrydau a deheadau [sic] dyfnaf y Cymry, ond, os na chaiff y bywyd Cymreig fwy o gynhorthwy a symbyliad, ofnwn y try'r Coleg yn fynwent iddynt.' Beir rhai o'r myfyrwyr yn yr un modd, am siarad Saesneg 'hyd yn oed wrth eu myned i ddsbarth Cymraeg', a chanmolir yr iaith fel 'ein trysor pennaf ... ein gogoniant uchaf ... ein hamddiffynfa gadarnaf ... Gwerthfawrocach ydyw na'r llynges luosocaf, a'r fyddin rymusaf.' Man cychwyn yw cenedlaetholdeb 'ar y ffordd i gyrraedd y delfryd o garu pob cenedl a phob dyn':

Trwythwn ein hunain yn ysbryd proffwydi annibyniaeth y cenhedloedd ym mhob oes. Myfyriwn Mazzini a Thomas Davies [sic] fel y caffom ninnau'r unrhyw weledigaeth.⁹

Y demtasiwn yw inni gael ein llygad-dynnu gan rethreg syrffedus gofid a dyhead, trysor a gweledigaeth, rhag gweld ei heffaith ehangach. Crea relatiffaeth. Caniatâ i Bebb gyfuno a chyffelybu pynciau mor ymddangosiadol ddisgyswllt â'r Chwyldro Comiwnyddol, Cymreictod y Coleg, goruchafiaeth foesol iaith ar rym milwrol, y Risorgimento a Young Ireland.

Yma, yn ei neges waelodol fod yr hyn sy'n digwydd o fewn muriau'r Hen Goleg yn rhan o symudiad

Daeth y diwedd yn ddisymwth gyda rhifyn cyntaf arfaethedig 1918. Gyrrwyd y copi i wasg y *Montgomery County Times* i'w argraffu, ac ymhlith y deunydd, sylwodd y gweithwyr ar rywbeth a ystyrient yn annheyrngar yn amser rhyfel. Gwrthodasant ei gysodi. Nid yw'n glir erbyn hyn beth oedd yr union achos. Y stori fwyaf poblogaidd yw mai ysgrif dan yr enw 'Ich Dein' o waith D. J. Williams a achosodd y ffrwgwd,¹⁰ ond mae'n anodd cysoni hyn yn derfynol naill ai â'r dyddiad sydd ar lawysgrif wreiddiol (Ionawr 1919), nac, yn bwysicach fyth, â'r cynnwys. Prin y byddai neb heddiw yn meddwl ei darllen: mae'r cyfeiriadau wedi colli'u harwyddocâd ac mae'r arddull yn llafurus. Treuliedig yw ei neges am waseidd-dra cenedlaethol a methiant cynrychiolaeth i Gymru yn y Senedd. Yn bwysicaf oll, mae'n anodd gweld ynddi alwad heddychol agored. Posibilrwydd arall yw fod yr ysgrif yn ddolen mewn cadwyn. Sonnir yn y *Cambrian News* am 28 Rhagfyr 1917 am atal ysgrif (un Williams?) gan y wasg, a ysgogodd 'editorial note' tramgwyddus (nas cadwyd) gan Bebb, yn traethu am Sinn Féin. Tra oedd y *Cambrian News* yn barod i faddau - 'readers have to bear in mind that the writers for "Y Wawr" are not men of matured [*sic*] judgment and some allowance must be made for the indiscretions of youth'¹¹ – nid felly awdurdodau'r Coleg. Galwyd Bebb gan y Dirprwy Brifathro, Edward Edwards, ym mis Rhagfyr 1917, a dywedwyd wrtho am ymddiswyddo. Gwrthododd Bebb, ac fe'i cefnogwyd yn unfrydol gan bwyllgor y cylchgrawn. Aeth y sgandal cyn belled â llawr Tŷ'r Cyffredin, a chwestiwn i'r Ysgrifennydd Cartref. Yn sgil gwŷs pellach i ymddangos gerbron Senedd y Coleg, gorfodwyd Bebb i sefyll o'r neilltu, ac fe'i dilynwyd gan weddill y pwyllgor.

Y peth cyntaf a ddywedodd y Prifathro oedd fod yn rhaid i'r Golygydd ymddiswyddo, ac na wnâi dim llai na hynny y tro ... Dywedasom wrtho na fyddai dim gwleidyddol, ac a thuedd ynddo i darfu meddyliau dynion gwan eu pwyll yn y rhifyn nesaf. Ond ni wnâi hynny ddim o'r tro. Yr oedd yn rhaid i'r Golygydd ymddiswyddo. Gorfod imi wneuthur hynny, ac ymddiswyddo a wnaeth y pwyllgor hefyd, a dyna'r 'Wawr' wedi machlud yn ogoneddus dan gwmwl diawlgwn y Coleg.¹²

ABERYSTWYTH COLLEGE MAGAZINE.

Sir J. D. REES asked the Secretary of State for the Home Department whether he is aware that, in the Aberystwyth College Magazine, called "Y Wawr," seditious articles are published in the Welsh language such as are calculated, if not intended, to debauch the loyalty of the students and to impede the prosecution of the War; whether this college receives any Grant from public funds; and whether he will inquire into this matter, in view of stopping the publication of such articles and suitably punishing those responsible for their publication?

The Secretary of State for the Home Department (Sir George Cave): I have made inquiry of the authorities of the college, and I find that no article answering to the description in the hon. Member's question or to that in the newspaper article on which the question was founded has appeared in the college magazine. There can, I am satisfied, be no question of the patriotism of the teaching staff of the college or of its students, the majority of whom are now training [1134] for military service, while a large number of the remainder are men who have been invalided from the Army.

Sir J. D. REES: Is not the right hon. Gentleman mistaken? Was not this allegation made publicly in the Press, and not refuted by the college authorities?

Sir G. CAVE: It is for that reason that I have had inquiries made, and I am informed that the article did not appear in the college magazine.



Pwyllgor *Y Wawr*, 1917-1918. (Tynnwyd y llun ar ôl yr ymddiswyddiadau)

Yn y cefn: T.H. Parry-Williams, T.C. Jones, G.J. Williams, T.G. Thomas, D. Lloyd Jenkins.

Yn y blaen: Cassie Davies, Mabel Parry, Ambrose Bebb (golygydd), Annie Owen, Catherine Thomas.

Bu sôn, yn anochel bron, am ail-lansio'r *Wawr*; ond erbyn 1919, yr oedd Bebb yn llugoer.

Ysgrifennodd at D.J. ar 1 Rhagfyr:

Fel chwithau, yr ydwyf innau i mewn am Gymru – am Gymru lân, ddihalog a dilwch ei thegwch, costied a gostio. Ond ychydig i'w ryfeddu ydyw nifer y rhai sydd â'n dyhead ni ar y peth. Ym myd y llwch a'r lludw y mae mwyafrif ein cyd-Gymry, a phrin na ddywedaf bod hynny yn fwy gwir am y rhai sy'n y Coleg na'r rhai nad ydynt.¹³

Nid oedd Bebb ar dir i wneud erbyn hynny, yn sicr. Graddiodd yn haf 1918, ac yr oedd bellach ar ddechrau gyrfa academiaidd a'i gyrrai cyn pen blwyddyn arall i'r Sorbonne. Mae'n gwestiwn a oedd digon o ewyllys erbyn 1919, chwaith, i neb arall ailafael yn y fenter. Peth bregus yw cylchgrawn myfyrwyr. Dibynna ar ewyllys da ac egni gwirfoddolwyr. Y rheswm amlycaf pam nad ailgychwynnwyd *Y Wawr*, fodd bynnag, oedd treigl amser. Erbyn 1920, roedd nifer y myfyrwyr wedi bron â threblu, i 1,092, ac ni ellid cynnal y gymuned glos o fodolai gynt. Yn yr un flwyddyn, bu farw cynheilydd olaf y gwladgarwch a oedd wedi ysgogi'r fenter wreiddiol: *Cymru coch* O. M. Edwards. Darfu gydag ef am gymhellion ei sylfaenwyr. Nid 'dyheadau' a 'gwawr' a gwneud 'ein goreu i Gymru' oedd y disgwrs llywodraethol mwyach. Tewi oedd raid.

T. Robin Chapman

Ffynonellau

¹ 'Wrth y Bwrdd', *Y Wawr*, 1 (1913), 1-2.

² Dyfynnwyd yn Herbert du Parcq, *Life of David Lloyd George*, Cyf. 1 (London, 1912), t. 148.

³ John Morris Jones [sic], *Caniadau* (Rhydychen, 1907), t. 66.

⁴ G.J.W., 'Yr Alwad', *Y Wawr*, 1 (1913), t. 42.

⁵ 'Wrth y Bwrdd', *Y Wawr*, 2 (1915), t. 123.

⁶ 'Editorial', *The Dragon*, 37 (1914), t. 1.

⁷ 'Editorial', *The Dragon*, 37 (1915), t. 117.

⁸ 'Editorial', *The Dragon*, 40 (1917), t. 1.

⁹ 'Wrth y Bwrdd', *Y Wawr*, 5 (1917), tt. 42-4.

¹⁰ Cafwyd yr ysgrif ymhlith papurau Williams, a drosgwyddwyd i'r Llyfrgell Genedlaethol wedi ei farw yn 1970, ac a gyhoeddwyd yn *Llais y Lli*, cylchgrawn myfyrwyr Aberystwyth, yn Ionawr 1971. Ategir rhan ganolog yr ysgrif yn yr helynt gan Waldo Williams yn J. Gwyn Griffiths (gol.), *D. J. Williams Abergwaun: Cyfrol Deyrnged* (1965) a Cassie Davies yn ei hunangofiant, *Hwb i'r Galon* (1973). Derbynnir yr un stori gan J. Gwyn Griffiths, yn 'Ysgrif a Gladdodd Gylchgrawn', *Y Traethodydd*, CXXVIII, 547, (1973), tt. 114-17, ac yn Peter Barberis, John McHugh, Mike Tyldesley (goln), *Encyclopedia of British and Irish Political Organizations: Parties, Groups and Movements of the 20th Century* (2000).

¹¹ <http://papuraunewyddcymru.llgc.org.uk/cy/page/view/3414046>

¹² LIGC, casgliad William Ambrose Bebb. WAB at D. J. Williams, 21.2.18.

¹³ LIGC, casgliad William Ambrose Bebb. WAB at D. J. Williams, 1.12.19.